

Ionawr 2023

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rwy'n ysgrifennu atoch i amlinellu rhai newidiadau i wisg yr ysgol a gytunwyd gan Lywodraethwyr yr ysgol y tymor diwethaf yn dilyn adborth gan rieni dros y misoedd diwethaf. Fe welwch fod y newidiadau yn rhai gweddol fach, o safbwynt golwg y wisg ysgol, ac mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud yn unswydd i leihau cost y wisg ysgol yn y cyfnod anodd hwn, heb newid hunaniaeth yr ysgol. Sylwch, ym mhob achos, **gellir parhau i wisgo eitemau o wisg ysgol sy'n cael eu gwisgo ar hyn o bryd**, hyd nes y bydd angen eu newid.

Ceir crynodeb llawn o'n gwisg ysgol bresennol isod, ond gellir crynhoi'r newidiadau fel a ganlyn:

- Ni fydd logo'r ysgol ar y crys polo gwyn mwyach. Byddwn hefyd yn newid y brand sydd ar gael gan ein cyflenwyr o 'David Duke' i 'Woodbank' i gadw'r streipen lliw tŷ, ond am gost is.
- Bydd pob eitem o'r wisg Addysg Gorfforol ar gael o ddetholiad 'Aptus Essentials' yn hytrach nag o ddetholiad 'Performance'.
- Ni fydd logo'r ysgol ar y siorts Addysg Gorfforol mwyach.
- Ni fydd logo'r ysgol ar y trowsus tracwisg Addysg Gorfforol mwyach.
- Er bod y siorts, legins a'r trowsus tracwisg ar gael gan ein cyflenwyr, bydd unrhyw eitemau glas tywyll neu ddu gyda logos brand bach yn dderbyniol.

Mae bron pob disgybl yn mynychu'r ysgol yn y wisg gywir bob dydd. Er gwaethaf yr heriau yr ydym i gyd yn eu hwynebu ar hyn o bryd, mae safonau wedi parhau i fod yn uchel yn ystod y tymor hwn a hoffem ddiolch i rieni a myfyrwyr am ddilyn ein canllawiau yn agos. Fodd bynnag, mae lleiafrif bach o fyfyrwyr yn parhau i anwybyddu'r gofynion weithiau. Fel erioed, byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn y tymor newydd a thu hwnt. Yn benodol, hoffwn eich atgoffa na chaniateir gwisgo legins tynn fel rhan o'r wisg safonol ac os yw myfyrwyr yn dewis gwisgo sanau gyda sgert, rhaid eu gwisgo o dan y pen-glin.

I'ch helpu gyda'r dasg o brynu'r wisg a'r offer cywir, ceir canllaw manwl o'r hyn a ddisgwylir a'r hyn na ddisgwylir yn yr ysgol ar gael ar ein gwefan. Fel erioed, lle nad yw gwisg ysgol yn cyrraedd y safon ofynnol a nodir isod, rydym yn gofyn i chi brynu steiliau a brandiau penodol o drowsus neu sgertiau sydd ar gael o amrywiaeth o siopau am amrywiaeth o brisiau. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i gael gwared ar unrhyw ddryswch yn y tymor newydd.

### Crynodeb o'r Wisg Ysgol

- Crys polo gwyn gyda choler lliw yn dynodi tŷ'r myfyriwr  
(Crafnant = gwyrdd, Dulyn = melyn, Hiraethlyn = glas, Llugwy = coch)
- Crys chwys glas tywyll yn dangos arfbais yr ysgol
- Trowsus llwyd siarcol neu ddu (**ffit rhydd, a hyd llawn**) / sgert lwyd neu ddu (**hyd pen-glin**) neu siorts yn nhymor yr haf
- Sanau neu deits du/llwyd
- Esgidiau du heb unrhyw logos. Ni chaniateir esgidiau cynfas.

### Gwisg Addysg Gorfforol

Eitemau gorfodol:

- Crys Polo Addysg Gorfforol yn dangos logo'r ysgol
- Siorts Addysg Gorfforol mewn du plaen neu las tywyll gyda logos brand bach
- Unrhyw esgidiau ymarfer sy'n addas ar gyfer Addysg Gorfforol (dylai'r rhain fod yn wahanol i'r rhai a wisgir fel rhan o'r wisg ddyddiol).

Eitemau opsiynol:

- Haen isaf du neu las tywyll ar gyfer cynhesrwydd i'w gwisgo o dan siorts/crysau
- Legins du neu las tywyll (naill ai gan ein cyflenwyr neu gyda logos brand bach yn unig)
- Trowsus tracwisg du neu las tywyll (naill ai gan ein cyflenwyr neu gyda logos brand bach yn unig)
- Top sip ¾ Ysgol Aberconwy gyda logo'r ysgol.

I gloi, os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r wisg ysgol, mae croeso i chi gysylltu â thîm bugeiliol yr ysgol yn y lle cyntaf.

Yn gywir

Mr Ian Gerrard  
Pennaeth